Hawdd ei ddeall

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

# Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg

## Adroddiad Blynyddol 2020 – 2021



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Caerdydd a Bro Morgannwg**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o "**Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021.**"

**Awst 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod chi angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas** beiddgar yn anodd eu deall. Gallwch wirio beth mae'r geiriau mewn glas yn ei olygu ar **dudalen 31**.

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Lle mae'r ddogfen yn dweud ein bod **ni**, mae hyn yn golygu Cleient. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** cvihsc.co.uk/cy/amdanon-ni/

**Ffon**: 029 2183 6077

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y ddogfen yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma......2**

**Bwrdd y Partneriaeth Rhanbarthol......4**

**Y pethau rydyn ni wedi'u gwneud o 2020 tan 2021......9**

**Geiriau Anodd......31**

# Bwrdd y Partneriaeth Rhanbarthol

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Mae Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg yn **Fwrdd y Partneriaeth Rhanbarthol**.



Mae **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** yn grŵp o fudiadau sy'n cynllunio ac yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gofal a chefnogaeth ar gyfer pobl sydd ei angen.

Mae'r rhain yn fudiadau sy'n aelodau o Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg:

- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
- Gwasanaeth Gwirfoddol Morgannwg
- Llamau. Mae'r mudiad hwn yn siarad ar ran pobl ifainc.
- Gofal. Mae'r mudiad hwn yn siarad ar ran pobl hŷn.
- Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru. Mae'r mudiad hwn yn siarad ar ran gofalwyr.
- YMCA Caerdydd. Mae'r mudiad hwn yn siarad ar ran pobl sydd angen gofal a chefnogaeth.

# Y pethau sydd arnon ni eu hangen

Mae arnon ni eisiau i bobl fyw'r bywyd gorau y gallan nhw.

**Mae hyn yn meddwl bod arnon ni eisiau:**



1. i bobl beidio â gorfod aros yn rhy hir am y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw



2. i bobl fedru byw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain pryd bynnag y gallan nhw

3. i bobl fedru gwneud dewisiadau ynglŷn â'u bywydau



4. i bobl sy'n cefnogi pobl eraill deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi

5. i blant a phobl ifainc gael dechrau da mewn bywyd




6. i bobl gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw pan fydd argyfwng



7. i bobl beidio â dioddef neu farw heb angen

8. i ni wastraffu llai, a gwario arian mewn ffordd ddoeth.

## Arian





Bob blwyddyn rydyn ni'n cael miliynau o bunnoedd gan Lywodraeth Cymru.

Rydyn ni'n rhannu'r arian hwn gyda mudiadau i'w helpu i roi gofal a chefnogaeth i bobl sydd ei angen.




Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am hyn yma. Funding and Support - [cvihsc.co.uk/cy/cyllid-a-chymorth/](cvihsc.co.uk/cy/cyllid-a-chymorth/)

## Y pethau rydyn ni wedi eu gwneud yn ystod Covid-19




Pan ddechreuodd y pandemig, fe wnaethon ni lawer o bethau i helpu gwasanaethau.




Fe gawson ni dros £1.6 Miliwn yn ychwanegol i helpu gwasanaethau sy'n cefnogi pobl.

**Fe warion ni'r arian hwn ar bethau fel:**



- helpu pobl i symud allan o ysbytai



- helpu pobl i gadw'n heini yn ystod y cyfnod clo



- helpu pobl i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu.




Buon ni hefyd yn rhoi arian i rai elusennau oedd angen gwneud pethau'n wahanol.  Fe wariodd yr elusennau yr arian ar bethau fel:

- Cludo prydau bwyd
- Dosbarthiadau canu ar-lein
- Llechi ac 'iPads' er mwyn i bobl gadw mewn cysylltiad.




Yn ystod Covid-19 fe ddysgon ni lawer o bethau am weithio gyda'n gilydd a'r pethau sydd ar bobl eu hangen.




Byddwn yn cofio'r pethau hyn wrth i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol.

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Mae dau fath o ofal a chefnogaeth y gall pobl eu cael.**



**Gofal iechyd** yw pan fydd rhywun yn cael cefnogaeth ar gyfer eu hiechyd.



**Gofal cymdeithasol** yw pan fydd rhywun yn cael cefnogaeth i wneud pethau bob dydd yn ei fywyd fel siopa, coginio, a chadw'n brysur.



Mae'r arian sy'n cael ei ddefnyddio i dalu am y ddau wahanol fath o ofal yn dod o wahanol fannau.



Gall fod yn gymhleth weithiau pan fydd ar rywun angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol.



Rydyn ni'n gweithio i'w gwneud hi'n fwy syml i bobl gael y ddau fath o ofal pan fydd ei angen arnyn nhw.

# Y pethau rydyn ni wedi'u gwneud o 2020 tan 2021

## Plant a phobl ifainc



Rydyn ni wedi bod yn gweithio i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifainc yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifainc sydd â:




- **Iechyd meddwl gwael**
- **Anabledd corfforol**
- **Anghenion iechyd cymhleth.**



Mae **iechyd meddwl** yn bethau fel iselder ysbryd neu boen meddwl.  Mae hyn yn gwneud i chi deimlo'n drist neu boeni drwy'r amser.

Mae **anabledd corfforol** yn meddwl bod corff rhywun yn gweithio mewn gwahanol ffordd. Efallai y bydd rhywun sydd ag anabledd corfforol yn defnyddio cadair olwyn neu fod ag angen cefnogaeth i wneud y pethau y mae arno eisiau eu gwneud.

Mae gan rywun **anghenion iechyd cymhleth** pan fydd ychydig o wahanol broblemau iechyd ganddo.  Efallai bod arno angen llawer o gefnogaeth â'i iechyd a chefnogaeth i wneud y pethau y mae arno eisiau eu gwneud.




Rydyn ni wedi gorfod newid y ffordd rydyn ni'n gwneud pethau oherwydd Covid-19 i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifainc yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

**Fe wnaethon ni roi cefnogaeth i bobl oedd yn gweithio yn gwneud pethau fel:**



- Helpu plant oedd wedi cael **trawma** pan oedden nhw'n ifainc.

> Mae **trawma** yn meddwl bod rhywbeth drwg iawn wedi digwydd i rywun sy'n gallu effeithio arnyn nhw am amser hir. Gall hyn fod yn rhywbeth fel cael eich cam-drin neu riant yn marw.



- Helpu plant mewn gofal i fynd yn ôl at eu teuluoedd â'r gefnogaeth iawn.



- Gweithio gyda theuluoedd a'u plant er mwyn iddyn nhw fedru cael ateb i'w problemau gyda'i gilydd ac aros gyda'i gilydd fel teulu.



- Helpu plant a phobl ifianc sydd â phroblemau iechyd meddwl.

  Cliciwch yma i ddarllen mwy am y gwaith hwn.



Fe warion ni dros £6.2 Miliwn ar y gwaith hwn yn 2020 - 2021

## Gwasanaethau anabledd dysgu

Oherwydd Covid-19 cafodd llawer o wasanaethau eu cau.  Dyma rai o'r gwasanaethau:




- Gweithgareddau cymdeithasol
- Grwpiau
- Cyfleoedd dydd.



Roedd llawer o'r staff oedd yn gweithio yn y gwasanaethau hyn yn gorfod gwneud gwahanol waith yn ystod Covid-19.



Roedd hyn yn anodd i lawer o bobl ag anabledd dysgu.



Roedd staff mewn gwasanaethau cefnogi yn gweithio'n galed iawn i gadw mewn cysylltiad â phobl a'u cefnogi mewn ffyrdd newydd.

**Roedden ni'n cefnogi llawer o waith oedd yn cael ei wneud, fel:**




- Cefnogi pobl yn yr ysgol wrth iddyn nhw dyfu'n oedolion; mae hyn yn cael ei alw'n Drawsnewid.

- Helpu darparwyr Byw gyda Chefnogaeth i newid y ffordd maen nhw'n gweithio yn ystod Covid-19.



- Darparu seibiannau byr gyda gofalwyr.



- Gwneud yn siŵr bod pobl ag anabledd dysgu yn cael y gefnogaeth iawn ar gyfer eu hiechyd gartref, yn y gymuned, ac yn yr ysbyty.

- Hyfforddi staff iechyd a gofal cymdeithasol sut i gyfathrebu a chefnogi pobl yn well.
  Cliciwch yma i ddarllen mwy am y gwaith hwn.




Fe warion ni dros £1.3 Miliwn ar y gwaith hwn yn 2020 – 2021.

## Awtistiaeth



Mae ein Gwasanaethau Awtistiaeth **Integredig** yn gweithio gyda llawer o fudiadau i gefnogi pobl ag awtistiaeth.

Mae **integredig** yn meddwl gweithio gyda'n gilydd.



Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn cefnogi oedolion ag awtistiaeth, rhieni, gofalwyr a phobl broffesiynol.




Yn ystod 2020–2021 cefnogodd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig 1589 o bobl.

Cliciwch yma i ddarllen rhai hanesion pobl sydd wedi cael eu cefnogi.

# Pobl hŷn a phobl â dementia



Mae **dementia** yn afiechyd sy'n effeithio ar ymennydd rhywun. Gall pobl sydd â dementia gael problemau â'u cof a theimlo'n ddryslyd. Mae fel arfer yn effeithio ar **bobl hŷn**.



Mae **pobl hŷn** yn meddwl pobl sydd dros 65 oed.



Rydyn ni'n gweithio i wneud yn siŵr bod gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd i helpu **pobl hŷn** sydd â llawer o anghenion iechyd a chefnogaeth.



Mae arnon ni eisiau i **bobl hŷn** fod yn hapus a byw'n annibynnol mor hir ag y gallan nhw.

**Roedden ni'n cefnogi llawer o waith oedd yn cael ei wneud fel:**



- Ei gwneud hi'n haws i bobl hŷn ddod o hyd i'r cyngor a'r gefnogaeth iawn pan fydd eu hangen arnyn nhw.



- Helpu meddygon teulu i weithio mewn ffyrdd newydd i gefnogi pobl hŷn.



- Helpu pobl hŷn i symud allan o ysbyty pan fyddan nhw'n barod.



- Gwneud yn siŵr bod pobl sydd â dementia yn teimlo bod pobl yn eu deall, yn eu gwerthfawrogi a'u bod yn medru cyfrannu tuag at eu cymunedau.



- Gwneud yn siŵr bod pobl sydd â dementia yn cael cefnogaeth mewn ffordd sydd yn iawn iddyn nhw.

Cliciwch yma i ddarllen mwy am y gwaith hwn.

## Gofalwyr



Mae rhai gofalwyr yn bobl sy'n rhoi gofal a chefnogaeth i rywun ond dydyn nhw ddim yn cael eu talu.  Maen nhw'n aml yn deulu neu'n ffrindiau i'r person y maen nhw'n gofalu amdano.

**Rydyn ni'n rhoi cefnogaeth i lawer o waith i helpu gofalwyr fel:**



- Rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i ofalwyr.



- Cefnogaeth i ofalwyr sy'n blant neu'n bobl ifainc.



- Helpu gofalwyr i gynllunio os yw'r person maen nhw'n gofalu amdano yn mynd i mewn ac allan o'r ysbyty.



- Trefnu seibiant byr oddi wrth ofalu am eu hanwyliaid er mwyn iddyn nhw gael gorffwys os bydd arnyn nhw angen.

  Cliciwch yma i ddarllen mwy am y gwaith hwn.

# Cynllunio ar gyfer y gaeaf



Gall y gaeaf fod yn adeg anodd gan fod pobl hŷn neu bobl anabl yn mynd yn sâl ac yn mynd i'r ysybyty mwy yn y gaeaf.



Rydyn ni'n gweithio i wneud yn siŵr bod pobl yn cael y gefnogaeth iawn i symud allan o'r ysbyty a dod yn ôl adref pan fyddan nhw'n barod.

**Mae'r gwaith rydyn ni wedi'i wneud wedi helpu:**



- 296 yn fwy o bobl i symud allan o ysbyty.



- Rhoi bron i 4,000 awr o gefnogaeth i bobl yn eu cartrefi eu hunain.



- Cyflogi mwy o staff i gefnogi pobl er mwyn iddyn nhw fedru symud allan o ysbyty a mynd adref.



- Helpu deuddeg o bobl gael arhosiad byr mewn cartref gofal cyn iddyn nhw fynd adref.

# Rhannu gwybodaeth



Rydyn ni'n cymryd rhan mewn llawer o waith ac felly mae arnon ni angen dweud llawer o wahanol bethau wrth lawer o wahanol bobl.

**I'n helpu i rannu gwybodaeth yn y ffordd orau:**




- Mae gennym ni wefan ddiogel ble gallwn ni rannu adroddiadau ar ein gwaith â'n haelodau.



- Rydyn ni wedi ysgrifennu rhai storïau am ein gwaith i ddangos i bobl beth maen nhw'n wneud.



- Defnyddio mwy ar gyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth.

# Gwrando ar bobl eraill



Rydyn ni wedi gweithio i weld sut y gallwn ni gynnwys mwy o bobl a gwrando ar beth maen nhw'n feddwl. Rydyn ni wedi:



- Siarad â phobl sy'n gweithio i awdurdodau lleol a mudiadau sy'n cefnogi pobl.



- Siarad â mudiadau sy'n cynrychioli pobl sydd angen gofal a chefnogaeth.




- Gwneud rhai arolygon.



- Edrych sut y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eraill yn gwrando ar fudiadau eraill ac yn gweithio gyda nhw.




Rydyn ni am ysgrifennu cynllun o'r ffordd y gallwn ni weithio gyda mudiadau eraill, cynnwys pobl a gwrando ar beth maen nhw'n feddwl.

## Gweithio gydag elusennau a mudiadau eraill



Er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y gofal a'r gefnogaeth orau rydyn ni'n gweithio gyda llawer o elusennau a mudiadau eraill sy'n cefnogi pobl.



Yn y gorffennol fe gychwynnon ni **fforwm** gyda'r mudiadau hyn.

**Fforwm** yw grŵp o bobl yn dod at ei gilydd i drafod pethau sydd ganddyn nhw'n gyffredin.



Rydyn ni'n mynd i edrych ar y ffordd orau o ddal ati i weithio gyda'r mudiadau hyn.



Mae arnon ni eisiau cynllunio'r gwaith rydyn ni'n wneud yn y dyfodol gyda'r mudiadau hyn.




Roedden ni'n rhan o brosiect oedd yn edrych ar wirfoddoli a sut y gall gwirfoddoli helpu yn ystod ac ar ôl Covid-19.

## Gweithio'n strategol




Mae **strategol** yn meddwl gweithio mewn ffordd fydd yn cael ateb i broblemau a chael pethau wedi'u gwneud yn y ffordd orau.



Mae gennym ni **Fwrdd Comisiynu Rhanbarthol.**

Mae'r **Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol** yn grŵp o fudiadau sy'n dod at ei gilydd i:




- Wneud yn siŵr bod gwasanaethau ac arian yn cael eu defnyddio'n ofalus fel bo pobl yn cael cefnogaeth dda.



- Rhannu gwasanaethau.



- Cytuno sut i brynu pethau a threfnu gwasanaethau gyda'i gilydd.

**Fe helpodd y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol i:**



- gynllunio ar gyfer Cartrefi Gofal a Covid-19 yn y gaeaf



- rhannu hyfforddiant ar gyfer staff rhwng mudiadau
- rhannu gwybodaeth rhwng mudiadau



- cytuno faint y dylai gwasanaethau gostio





- gweithio ar wella gwasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.

## Gwybodaeth a chyfrifiaduron



Rydyn ni wedi cychwyn Grŵp Gwybodaeth Rhanbarthol.

Mae'r grŵp hwn yn chwilio i weld beth yw'r ffordd orau o ddod o hyd i wybodaeth y mae arnon ni angen gwybod a'i rannu â'r bobl sydd angen yr wybodaeth.




Rydyn ni'n gweithio i ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym i weld sut y mae gwasanaethau iechyd a gofal yn gweithio, ac i gynllunio ar gyfer pa fath o gefnogaeth y mae'n debyg y bydd ar bobl ei angen yn y dyfodol.



Rydyn ni'n gweithio i gyflwyno Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.



Mae Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn rhywbeth y mae staff mewn gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn ei ddefnyddio i ddod o hyd i wybodaeth ynghylch y gofal a'r gefnogaeth mae rhywun yn eu cael a rhannu'r wybodaeth honno.



Gall staff ddefnyddio Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn y swyddfa neu ar eu ffôn clyfar neu eu llechen pan fyddan nhw allan yn rhywle.



Rydyn ni wedi rhoi £60,000 i Ymddiriedolaeth 'Innovate' i weld sut y gall technoleg gefnogi pobl ag anabledd dysgu i fyw'n annibynnol.

# Prosiectau cyfalaf



Mae **prosiectau cyfalaf** yn brosiectau sy'n costio llawer o arian. Maen nhw fel arfer yn ymwneud ag adeiladu rhywbeth neu wella adeilad. Mae'n cynnwys pethau fel adeiladu tai neu gartrefi gofal byw gyda chefnogaeth.




Yn ystod y tair blynedd diwethaf rydyn ni wedi gwario dros £8 miliwn ar **brosiectau cyfalaf**.




Dros y flwyddyn diwethaf rydyn ni wedi cefnogi un deg un prosiect cyfalaf newydd ac un deg wyth o **brosiectau cyfalaf** sy'n bod yn barod.

**Mae'r prosiectau hyn wedi bod ar gyfer:**




- **Pobl hŷn**
- Pobl sydd â **dementia**
- Pobl ag anableddau dysgu.

## Y flwyddyn nesaf




Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn mynd ymlaen â'r gwaith sydd gennym yn barod.




Byddwn yn cynllunio ar gyfer y dyfodol.



Byddwn yn helpu ein partneriaid i rannu gwybodaeth ynglŷn â'r ffordd y mae pobl yn cael gofal o wahanol wasanaethau.



Byddwn yn cynllunio gwasanaethau cefnogi fydd yn gwneud beth sydd ar bobl eisiau.

## Dangos y pethau da rydyn ni'n wneud



Mae arnon ni eisiau i bobl fyw y bywyd gorau gallan nhw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain.

I'n helpu i wneud hyn, a dod i wybod ydyn ni'n gwneud hyn, byddwn yn rhannu gwybodaeth â'n holl bartneriaid.

**Mae rhannu gwybodaeth rhwng ein partneriaid yn ein helpu i:**



- Ddeall pa anghenion iechyd a chefnogaeth sydd gan ein cymuned.
- Deall pa wasanaethau sydd eu hangen.
- Deall sut mae gwasanaethau yn helpu pobl.

## Rhedeg Bwrdd y Partneriaeth Rhanbarthol



Rydyn ni wedi cychwyn tri grŵp newydd ym Mwrdd y Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae pob grŵp yn canolbwyntio ar wasanaethau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl:



- Mae Partneriaeth Dechrau Da yn edrych beth sydd ar blant a phobl ifainc ei angen.




- Mae Partneriaeth Byw'n Dda yn edrych beth sydd ar oedolion ei angen.



- Mae Partneriaeth Heneiddio'n Dda yn edrych beth sydd ar bobl hŷn ei angen.

**Bydd y grwpiau hyn yn cyfarfod bob mis.**



Bydd y grwpiau yn helpu i wella gwasanaethau, a iechyd a lles pobl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

## Cefnogi pobl yn agos at eu cartref



Mae arnon ni eisiau i fwy o bobl gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw mor agos at eu cartref â phosibl.

**Rhai o'r ffyrdd y byddwn ni'n gwneud hyn fydd:**



- Cychwyn timau amlasiantaeth.  Mae'r rhain yn dimau o bobl o wahanol fudiadau sy'n gallu gweithio gyda'i gilydd mewn ardal i gael y gefnogaeth iawn i bobl.



- Cychwyn un man cyswllt. Mae'r rhain yn fannau ble gall rhywun gysylltu i gael llawer o wahanol fathau o gefnogaeth.

## Cefnogaeth i blant a phobl ifainc



Byddwn yn edrych i weld pa fath o gefnogaeth sydd gan blant a phobl ifainc sydd â llawer o anghenion iechyd, yn awr ac yn y dyfodol.



Bydd hyn yn ein helpu i gynllunio cefnogaeth ar eu cyfer.



Byddwn yn gweithio i wneud yn siŵr bod y gefnogaeth iawn yno ar gyfer plant a phobl ifainc sydd ag anghenion emosiynol.

## Enw newydd

Byddwn yn newid ein henw o **Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro**.




Byddwn yn cael gwefan newydd.

Bydd hyn yn ein helpu i rannu ac egluro y pethau rydyn ni'n wneud yn well.

## Gwrando ar bobl a gweithio gyda'n gilydd



Byddwn yn dal ati i weithio mewn partneriaeth â phobl a gwrando ar y pethau sydd ar bobl eu heisiau.




Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein Partneriaeth Dechrau Da a'n Partneriaeth Heneiddio'n Dda yn gwrando ar bobl ac yn gweithio gyda'i gilydd.



Byddwn yn rhedeg gweithdai i gynllunio ar gyfer gwaith y gallwn ni wneud gyda'n gilydd.

## Cynllunio ar gyfer y dyfodol




Rhwng 2021 - 2022 byddwn yn dysgu o'r pethau rydyn ni wedi'u gwneud yn ystod Covid-19.



Byddwn yn edrych yn fanwl ar y pethau sydd ar bobl eu hangen wrth gynllunio ein gwaith.



Byddwn yn edrych pa mor **gynaliadwy** yw gwasanaethau.

Mae **cynaliadwy** yn meddwl pa mor dda y gall rhywbeth ddal i fynd yn y dyfodol. Os yw gwasanaeth yn gynaliadwy mae arno angen medru dal i fynd fel y bydd pethau o'i gwmpas yn newid yn y dyfodol, fel y maint o arian sydd ganddo.



Byddwn yn gweithio'n agosach gyda **Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus**.

Mae **Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus** yn cael eu cychwyn yn ardal pob awdurdod lleol. Maen nhw'n cynnwys pobl o wasanaethau iechyd, yr awdurdod lleol, yr heddlu, y frigâd dân a mudiadau eraill.  Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i wella lles yn eu hardal.

# Geiriau anodd

## Anabledd corfforol

Mae anabledd corfforol yn meddwl bod corff rhywun yn gweithio mewn gwahanol ffordd. Efallai y bydd rhywun sydd ag anabledd corfforol yn defnyddio cadair olwyn neu fod ag angen cefnogaeth i wneud y pethau y mae arno eisiau eu gwneud.

## Anghenion iechyd cymhleth

Mae gan rywun anghenion iechyd cymhleth pan fydd ychydig o wahanol broblemau iechyd ganddo.  Efallai bod arno angen llawer o gefnogaeth â'i iechyd a chefnogaeth i wneud y pethau y mae arno eisiau eu gwneud.

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn grŵp o fudiadau sy'n cynllunio ac yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gofal a chefnogaeth ar gyfer pobl sydd ei angen.

## Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu cychwyn yn ardal pob awdurdod lleol.  Maen nhw'n cynnwys pobl o wasanaethau iechyd, yr awdurdod lleol, yr heddlu, y frigâd dân a mudiadau eraill.  Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i wella lles yn eu hardal.

## Cynaliadwy

Mae cynaliadwy yn meddwl pa mor dda y gall rhywbeth ddal i fynd yn y dyfodol. Os yw gwasanaeth yn gynaliadwy mae arno angen medru dal i fynd fel y bydd pethau o'i gwmpas yn newid yn y dyfodol, fel y maint o arian sydd ganddo.

## Dementia

Mae dementia yn afiechyd sy'n effeithio ar ymennydd rhywun. Gall pobl sydd â dementia gael problemau â'u cof a theimlo'n ddryslyd. Mae fel arfer yn effeithio ar bobl hŷn.

## Fforwm

Fforwm yw grŵp o bobl yn dod at ei gilydd i drafod pethau sydd ganddyn nhw'n gyffredin.

## Integredig

Mae integredig yn meddwl gweithio gyda'n gilydd.

## Iechyd meddwl

Mae iechyd meddwl yn bethau fel iselder ysbryd neu boen meddwl.  Mae hyn yn gwneud i chi deimlo'n drist neu boeni drwy'r amser.

## Prosiectau cyfalaf

Mae prosiectau cyfalaf yn brosiectau sy'n costio llawer o arian.  Maen nhw fel arfer yn ymwneud ag adeiladu rhywbeth neu wella adeilad. Mae'n cynnwys pethau fel adeiladu tai neu gartrefi gofal byw gyda chefnogaeth.

## Pobl hŷn

Mae pobl hŷn yn meddwl pobl sydd dros 65 oed.

## Strategol

Mae strategol yn meddwl gweithio mewn ffordd fydd yn cael ateb i broblemau a chael pethau wedi'u gwneud yn y ffordd orau.

## Trawma

Mae trawma yn meddwl bod rhywbeth drwg iawn wedi digwydd i rywun sy'n gallu effeithio arnyn nhw am amser hir.  Gall hyn fod yn rhywbeth fel cael eich cam-drin neu riant yn marw.